Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Gwasanaeth Ieuenctid Integredig Powys/Powys Integrated Youth Service

Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Mae Powys yn ymestyn dros ryw chwarter o arwynebedd tir Cymru, a hi yw'r sir sydd fwyaf prin ei phoblogaeth. Mae poblogaeth o ryw 133,600 ym Mhowys, gan gynnwys tua 20,600 o bobl ifanc 11-25 oed.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso gwasanaethau ieuenctid. O gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae cyfran gymharol isel o bobl ifanc ym Mhowys yn byw ar aelwydydd incwm isel, cyfran gymharol isel o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig a chyfran gymharol isel o bobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae tua 245 o blant a phobl ifanc sydd dan ofal yr awdurdod lleol (wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf am resymau datgelu).

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Integredig Powys yn rhan o'r Tîm Cynhwysiant a Gwasanaeth Ieuenctid yn y Gyfarwyddiaeth Addysg. Mae rheolwr y gwasanaeth wedi bod yn ei swydd er mis Ionawr 2023, pan ailstrwythurwyd y gwasanaeth ddiwethaf. Roedd 61 aelod o staff yn y gwasanaeth ieuenctid adeg yr arolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid cyffredinol ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol bob oed, ac mewn clybiau ieuenctid yn y trefi mwy. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwaith ieuenctid targedig i bobl ifanc fregus, 11-25 oed. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i bobl ifanc yn Sioe Frenhinol Cymru.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid gyllideb flynyddol o ychydig dros £2 miliwn, a daw tua dwy ran o dair o'r gyllideb hon o grantiau amrywiol. Yn ogystal â'i ddarpariaeth ei hun, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn comisiynu Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd i ddarparu gweithgareddau gwaith ieuenctid.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn o waith ieuenctid ychydig o wythnosau cyn yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol ym Mhowys. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon a'r gwerthusiadau o'r arolygiad gwaith ieuenctid i lywio gwasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle bo'n berthnasol.

## Trosolwg

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ystod eang o gyfleoedd addysg anffurfiol a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid a'i bartneriaid, gan fagu hyder, gwydnwch, a medrau cymdeithasol. Maent yn dysgu medrau ymarferol mewn prosiectau amgylcheddol ac yn derbyn cymorth gan weithwyr ieuenctid i ddelio â gwasanaethau statudol, gwneud cais am fudd-daliadau, a sicrhau tai, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain yn greadigol trwy gelf, drama, a phypedwaith, gan ddatblygu medrau emosiynol a chyfathrebu. Maent yn ennill profiad arwain, gan gynyddu eu hyder a'u cyflogadwyedd. Er bod pobl ifanc yn elwa ar eu profiadau dysgu o fewn y gwasanaeth ieuenctid, anaml iawn y caiff y dysgu ei achredu lle byddai hyn yn briodol.

Mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel gyda gweithwyr ieuenctid, sy'n gwella'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol. Maent yn magu hyder i drafod emosiynau a chryfhau perthnasoedd teuluol. Mae llawer ohonynt yn cymryd camau annibynnol i fynd i'r afael â'u trafferthion, fel y dangoswyd gan bobl ifanc yn ailgyfeirio'u hunain am gymorth, lle mae angen.

Mae gweithwyr ieuenctid yn angerddol am eu rôl mewn helpu a chefnogi pobl ifanc. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf â phobl ifanc trwy weithgareddau amrywiol. Mae eu hymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau bod y cymorth wedi'i deilwra a'i seilio ar ddealltwriaeth dda o anghenion pobl ifanc. Mae gweithgareddau gwaith ieuenctid yn hyrwyddo cynwysoldeb a chydraddoldeb; er enghraifft, mae'r grwpiau LHDTC+ yn helpu pobl ifanc i ddeall a bod yn sensitif i hawliau pobl eraill.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithredu ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol bob oed, gan gynnig cymorth unigol a sesiynau galw i mewn sy'n agored i'r holl bobl ifanc. Mae clybiau ieuenctid mynediad agored yn darparu gofodau diogel ar gyfer cymdeithasu a meithrin medrau mewn gweithgareddau creadigol, chwaraeon a gweithgareddau iechyd. Mae clybiau ieuenctid yn Y Drenewydd a'r Trallwng ar gau ar hyn o bryd oherwydd materion staffio, er bod gweithgareddau eraill yn y trefi hyn yn parhau.

Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc â phresenoldeb, ymddygiad, a materion personol, gan gynnwys y rhai mewn UCDau ac ysgolion arbennig, er bod prinderau o ran staffio wedi arwain at amseroedd aros annerbyniol. Mae'r tîm gwaith ieuenctid datgysylltiedig yn darparu cymorth rhagorol ar gyfer pobl ifanc fregus rhwng 16 a 25 mlwydd oed sy'n aml yn byw mewn cymunedau ynysig, yn gweithio gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol ar faterion cymhleth fel iechyd meddwl, tai, camddefnyddio sylweddau, niwrowahaniaeth, ac adsefydlu troseddwyr.

Mae gweithwyr ieuenctid yn codi lleisiau pobl ifanc, gan eu helpu i fagu hyder a chymryd rhan mewn trafodaethau. Er bod pobl ifanc yn ffurfio clybiau ieuenctid lleol, mae cyfleoedd i wneud penderfyniadau ar lefel sirol yn gyfyngedig.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu Clybiau Ffermwyr Ifanc i ddarparu gwaith ieuenctid gwledig ar gyfer dros 1,000 o bobl ifanc. Mae'r Urdd yn cefnogi gwaith ieuenctid yn Gymraeg, er bod ei integreiddio i strategaethau'r gwasanaeth ieuenctid ac ysgolion i gefnogi'r Gymraeg yn gyfyngedig.

Mae uwch arweinwyr y cyngor, rheolwyr gwasanaethau, ysgolion a sefydliadau partner yn cefnogi'r gwasanaeth ieuenctid yn gryf. Mae'r cyngor yn cydnabod cyfraniadau'r gwasanaeth ond nid yw'n adlewyrchu ei effaith yn llawn mewn strategaethau lefel uchel, ac mae pwyllgorau craffu'n rhoi sylw cyfyngedig i'w lwyddiannau a'i heriau.

Mae'r Rheolwr Cynhwysiant ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Integredig yn arwain yn effeithiol, gan sicrhau bod timau'n cael eu rheoli'n dda a bod goruchwyliaeth gref o ran y staff, gan gynnwys cymorth clinigol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gydag achosion cymhleth. Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar gymwysterau da. Maent yn cynnal cofnodion addas yn electronig ar gyfer ymyriadau targedig, a chofnodion papur ar gyfer gweithgareddau mynediad agored. Mae gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn aml yn eithriadol o dda, gan gefnogi cymorth amserol a thargedig ar gyfer pobl ifanc.

Nid oes system drosfwaol ar gyfer monitro effaith y gwasanaeth. Megis dechrau datblygu y mae system rheoli ansawdd y gwasanaeth ieuenctid, gan gynnwys ystyried ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu. Mae'r gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer gwelliant, ond yn gyffredinol, nid yw camau'n ddigon penodol ac nid ydynt yn cynnwys targedau mesuradwy cysylltiedig yn ymwneud ag effaith.

Caiff y gwasanaeth ieuenctid ei ariannu trwy gyllid craidd a grantiau; mae grantiau'n cyfrif am ddwy ran o dair o'i gyllideb. Caiff ansicrwydd ynghylch cyllid effaith negyddol ar gapasiti'r gwasanaeth ac mae'n cyfyngu ar gynllunio'r gwasanaeth.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu, a cheir polisïau clir a chydweithio cryf rhwng gweithwyr ieuenctid ac asiantaethau statudol perthnasol. Mae staff yn cael hyfforddiant diogelu cynhwysfawr, gan gynnwys ymwybyddiaeth o radicaleiddio ac eithafiaeth, gan sicrhau gweithlu hynod fedrus sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng dyletswyddau diogelu a meithrin ymddiriedaeth.

Roedd pob un o'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth. Roedd pobl ifanc sydd wedi cael eu cyfeirio at asiantaethau eraill yn ymddiried yn eu gweithwyr ieuenctid ac yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau. Dywedodd llawer ohonynt fod gweithwyr ieuenctid wedi eu helpu i fyw bywydau mwy diogel, mwy sefydlog, a boddhaus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1 Gwella ansawdd hunanwerthuso a chynllunio gwelliant o fewn y gwasanaeth

A2 Cynyddu cyfleoedd perthnasol i achredu dysgu pobl ifanc

A3 Gwella cyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt ar lefel sirol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

### Addysgiadol

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ystod helaeth o gyfleoedd addysg anffurfiol a gynigir gan y gwasanaeth ieuenctid a'i bartneriaid sy'n cael eu comisiynu. Mae bron pob un o'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu amrywiol sy'n hyrwyddo'u datblygiad yn dda, ac maent yn elwa arnynt. Trwy feithrin perthnasoedd anffurfiol â gweithwyr ieuenctid, mae pobl ifanc yn magu hyder ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Ychydig iawn o bobl ifanc sy'n cael achrediad ar gyfer unrhyw ran o'u dysgu.

Mae pobl ifanc yn galw eu profiadau dysgu i gof gyda hoffter. Mewn un enghraifft, bu grŵp o bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn galw i gof eu profiadau dysgu o brosiect amgylcheddol y buont yn cymryd rhan ynddo. Treuliodd y bobl ifanc amser ar y bryniau yn dysgu am warchod natur trwy ystod o weithgareddau fel coginio ar dân, plannu grug, adeiladu cuddfan ac archwilio'r amgylchedd.

O ganlyniad i gymorth gan weithwyr ieuenctid, mae pobl ifanc yn dysgu delio â gwasanaethau statudol fel gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i wneud cais am fudd-daliadau ac yn deall llythyrau y

maent yn eu cael gan asiantaethau statudol. Mae pobl ifanc, sydd yn aml ag anghenion cymhleth, yn elwa ar gymorth ôl-16 i gael a chynnal tenantiaethau, yn ogystal â dechrau mewn hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu at gymdeithas.

### Mynegiannol

Mae pobl ifanc yn archwilio'u bywydau mewn amgylcheddau diogel ymhlith eu cyfoedion a'u gweithwyr ieuenctid, gan eu galluogi i fynegi eu hunain. Er enghraifft, roedd un person ifanc yn gallu mynegi eu teimladau ar alar diweddar trwy brosiect celf a alluogodd iddynt brosesu'r golled, gan ddatblygu mwy o wydnwch a chryfhau perthnasoedd â chyfoedion.

Mae pobl ifanc yn defnyddio ffyrdd creadigol o gyfathrebu â phobl eraill. Fe wnaeth pobl ifanc mewn grŵp ADY elwa trwy ddefnyddio pypedwaith, a defnyddiodd un person ifanc hyn yn gyfrwng i ddod o hyd i'w llais ar ôl brwydro am flynyddoedd lawer.

Mae pobl ifanc yn datblygu eu medrau drama gydag arbenigwyr allanol sy'n dod i glybiau ieuenctid. Gall pobl ifanc ymgymryd â chyfleoedd creadigol, er enghraifft gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc lle maent yn trefnu pantomeim ar gyfer cystadleuaeth. Maent yn ymarfer eu dawnsiau, dan arweiniad un o aelodau hŷn y grŵp. Maent yn datblygu eu hyder, eu hunan-barch a'u medrau cydsymud yn dda.

### Cyfranogol

Trwy ddarpariaeth mynediad agored mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid lleol, mae pobl ifanc yn cyfarfod â'u cyfoedion, yn cymdeithasu ac yn dysgu pethau newydd tra'n cael eu cynorthwyo gan oedolion a chyfoedion. Mae hyn yn hynod bwysig o ystyried natur wledig y sir.

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau gwaith ieuenctid targedig a mynediad agored, ac yn dylanwadu ar natur a datblygiad y gweithgareddau hyn. Er enghraifft, mewn clwb ieuenctid, roedd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau bob tymor, gan gofnodi eu syniadau a'u teimladau mewn llyfrau lloffion. Mae ychydig iawn o bobl ifanc yn cymryd rhan yn y cyfleoedd cyfyngedig i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau strategol am wasanaethau a gynhelir yn y sir gan yr awdurdod lleol neu asiantaethau eraill.

Mae pobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau i'w cyfoedion. Maent yn teimlo y gallant weithio tuag at eu huchelgeisiau trwy ddilyn rhaglenni yn eu clwb ieuenctid lleol. Er enghraifft, yng nghlwb ieuenctid Ystradgynlais, mae pobl ifanc yn ennill profiad trwy gymryd rhan mewn rhaglen i ddod yn arweinwyr

ifanc. Maent o'r farn fod y profiad hwn, dan arweiniad gweithwyr ieuenctid, yn rhoi hyder iddynt ac yn eu cynorthwyo i wneud cais am gyflogaeth.

### Cynhwysol

Mae pobl ifanc yn dysgu am fân wahaniaethau a materion yn ymwneud â chydraddoldeb trwy weithgareddau gwaith ieuenctid, er enghraifft trwy grwpiau LHDTC+ mewn ysgolion sy'n cael eu cefnogi gan weithiwr ieuenctid. Mae pobl ifanc yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan feithrin tosturi a sensitifrwydd tuag at hawliau a theimladau pobl eraill.

Enghraifft o hyn yw pan ddatblygodd pobl ifanc adduned undod ysgol gyfan a oedd yn golygu eu bod yn paratoi ac yn cyflwyno gweithdai i bob disgybl yn yr ysgol. I ddechrau, roedd hyn wedi'i seilio ar archwilio materion LHDTC+ a esblygodd i fod yn ddull ysgol gyfan yn canolbwyntio ar gydraddoldeb. Llwyddodd y bobl ifanc i fagu hyder, hunan-barch a medrau gwydnwch.

### Ciplun: Clwb Ni

Sefydlwyd clwb LHDTC+ ar gyfer pobl ifanc yn Ysgol Bro Hyddgen gan weithiwr ieuenctid ar ôl nodi angen. Esblygodd y clwb hwn i gwmpasu materion amrywiaeth a chydraddoldeb ehangach, gan ddod yn 'Clwb Ni'. Roedd y bobl ifanc sy'n mynychu'r clwb hwn yn awyddus i wneud mwy dros eu hysgol ac eisiau hysbysu eu cyfoedion am faterion cydraddoldeb. Gyda chymorth gan y gweithiwr ieuenctid, llwyddodd pobl ifanc i ddatblygu a chyflwyno 'gweithdy undod' i'r holl bobl ifanc yn yr ysgol. Roedd y gweithdy'n cynnwys 'adduned undod' a fabwysiadwyd gan yr ysgol gyfan, yn mynegi ymrwymiad pawb i drin pobl yn gyfartal a dangos caredigrwydd atynt.

Llwyddodd y bobl a oedd yn cyflwyno'r gweithdy i fagu hyder, gwydnwch gwell, a datblygu eu medrau siarad cyhoeddus. Dangosodd y prosiect ystod o egwyddorion gwaith ieuenctid, ac roedd y lefelau cyfranogiad yn eithriadol o dda. Cafodd pobl ifanc sy'n cymryd perchnogaeth o weithdai, ac yn eu cyflwyno i bobl ifanc eraill, effaith gadarnhaol nodedig ar draws cymuned yr ysgol gyfan.

Mae pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anghenion amrywiol yn cael cymorth trwy'r tîm gwaith ieuenctid datgysylltiedig. Maent yn datblygu strategaethau ymdopi a hyder i reoli cyfnodau heriol sylweddol yn eu bywydau, manteisio ar wasanaethau hanfodol a theimlo'u bod yn aelod gwerthfawr o'u cymuned.

### Grymuso

Mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel wrth ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid. Maent yn teimlo bod eu rhyngweithio â gweithwyr ieuenctid wedi gwella'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, gan gynnwys mewn achosion difrifol, lle roedd pobl ifanc yn cael meddyliau datblygedig am hunanladdiad.

O ganlyniad i'r ymddiriedaeth a'r cyfrinachedd y mae staff wedi eu hennyn, mae pobl ifanc yn teimlo'u bod wedi'u grymuso a'u galluogi i ofyn am gymorth. Yn aml, gall pobl ifanc gymryd camau annibynnol i fynd i'r afael â'u problemau iechyd meddwl a'u hanghenion lles. Pan maent wedi gweithio gyda gweithiwr ieuenctid yn y gorffennol ac wedyn wedi wynebu trafferthion newydd, maent yn aml yn ailgyfeirio'u hunain yn ôl at weithwyr ieuenctid, gan ddangos eu hunanymwybyddiaeth a'u hyder i ofyn am gymorth.

Mae pobl ifanc yn datblygu eu hyder i fod yn agored am eu hemosiynau. Maent yn gwella'u gallu i hunanfyfyrio a chael gwared ar rwystrau. Gallant esbonio sut mae hyn wedi eu helpu i siarad yn fwy am eu problemau gyda'u rhieni neu'u gofalwyr, sydd wedi gwella perthnasoedd teuluol.

Mae ychydig o bobl ifanc yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth a chyflogaeth trwy gyfleoedd i wirfoddoli yn eu clwb ieuenctid, ac aiff llawer ohonynt ymlaen i gyflogaeth gwaith ieuenctid am dâl.

Caiff pobl ifanc eu grymuso i fyw'n annibynnol trwy ddatblygu medrau bywyd hanfodol gyda chymorth eu gweithiwr ieuenctid. Mae hyn yn eu galluogi i fod wedi'u paratoi'n dda i wynebu'r heriau mewn bywyd fel oedolyn ifanc.

### Beth gall pobl ifanc ei ddisgwyl o ddarpariaeth gwaith ieuenctid

Mae gweithwyr ieuenctid ar draws y gwasanaeth yn angerddol am eu gwaith. Mae ganddynt ddiben moesol cryf sy'n eu hysgogi i ennyn deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc, wedi'i ategu gan werthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid. Trwy'r holl wahanol fathau o weithgareddau y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig, mae gweithwyr ieuenctid yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â phobl ifanc ac yn arddel ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gweithwyr ieuenctid yn deall anghenion pobl ifanc yn fedrus ac yn teilwra eu dull i weddu i amgylchiadau pob person ifanc. Un o nodweddion cyffredin a chryf y gwasanaeth ieuenctid yw pa mor dda y mae gweithwyr ieuenctid yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu eu hunanhyder, eu gwydnwch a'u lles emosiynol.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu gwasanaethau ym mhob ysgol uwchradd ac ysgol bob oed, sy'n golygu bod bron pob un o'r bobl ifanc 11-16 oed yn y sir yn cael cyfleoedd rheolaidd i elwa ar waith ieuenctid mynediad agored. Mae'r gweithgareddau mynediad

agored yn cynnwys cymorth unigol gan ddefnyddio'r celfyddydau, grwpiau ennyn diddordeb, cymorth ar gyfer cynghorau ysgol a sesiynau galw i mewn gwerthfawr yn ystod amser cinio lle gall pobl ifanc siarad yn gyfrinachol gyda gweithiwr ieuenctid am unrhyw beth yr hoffent.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd yn gweithio trwy ysgolion i ddarparu Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid buddiol ar gyfer pobl ifanc yn unigol neu grwpiau bach o bobl ifanc sydd angen cymorth targedig. Yn aml, mae'r cymorth hwn yn helpu mynd i'r afael â phryderon sydd gan ysgol am bresenoldeb neu ymddygiad person ifanc, neu'n cynorthwyo'r person ifanc â materion gyda chyfoedion, gartref, neu gyda'i hunaniaeth neu'i hunanddelwedd. Mae'r cymorth gwerthfawr a ddarperir gan weithwyr ieuenctid yn y Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid hefyd ar gael i bobl ifanc mewn UCDau ac ysgolion arbennig, a'r rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae materion staffio yn y Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid wedi rhwystro'i waith yn ddiweddar, gan darfu ar ymyriadau ar gyfer pobl ifanc a lleihau capasiti'r gwasanaeth mewn rhai ysgolion gan achosi amseroedd aros annerbyniol i bobl ifanc allu defnyddio'r gwasanaeth.

Yn Aberhonddu, Llandrindod ac Ystradgynlais, mae clybiau ieuenctid mynediad agored yn darparu cyfleoedd da i bobl ifanc gymdeithasu, cyfarfod a gwneud ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgogol a hwyliog. Mae'r gweithgareddau a gynigir trwy'r clybiau hyn yn canolbwyntio'n dda ar bedwar maes cwricwlwm y gwasanaeth ieuenctid, sef dinasyddiaeth, celf, chwaraeon ac iechyd. Er bod y gweithgareddau'n galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu medrau, eu hagweddau a'u gwerthoedd, mae cyfleoedd ar gyfer achredu yn rhy gyfyngedig. Mae'r clybiau'n darparu gofod diogel ar gyfer pobl ifanc, ac mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando'n sensitif ar bobl ifanc am faterion sy'n eu hwynebu ac yn cynnig cymorth addas. Oherwydd materion staffio, nid yw clybiau yn Y Drenewydd a'r Trallwng yn gweithredu ar hyn o bryd, er bod gweithwyr ieuenctid yn parhau i ddarparu gweithgareddau eraill ar gyfer pobl ifanc yn y cymunedau hyn.

### Ciplun: Cynorthwyo pobl ifanc fregus 16-25 oed

Mae'r tîm gwaith ieuenctid datgysylltiedig yn darparu cymorth rhagorol i bobl ifanc fregus 16-25 oed sy'n aml yn byw mewn cymunedau ynysig, ac maent yn aml yn gweithio'n adeiladol gyda theulu'r person ifanc, hefyd. Mae'r tîm yn gweithio'n effeithiol iawn gyda gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol ac asiantaethau statudol a gwirfoddol allanol i gynorthwyo pobl ifanc ag ystod eang o faterion cymhleth, fel iechyd corfforol ac iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, niwrowahaniaeth, materion ariannol, perthnasoedd, hunanhyder, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adsefydlu troseddwyr.

Mae'r tîm yn gweithio'n ddi-dor gyda'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ieuenctid i reoli pontio gwasanaethau pan fydd pobl ifanc o gwmpas 16 oed, ac yn gweithio lawn cystal gyda phobl ifanc 25 oed i drosglwyddo cymorth i wasanaeth priodol i oedolion. Mae gweithwyr ieuenctid yn parhau i drefnu eu bod ar gael i berson ifanc pan fydd ymyrraeth yn gyflawn, a byddant yn aml yn cytuno i siarad â'r person ifanc ar adegau cytûn. Mae hyn yn cefnogi cynaliadwyedd ymyriadau ac yn galluogi gweithwyr ieuenctid i nodi materion sy'n ailymddangos a darparu cymorth amserol.

Mae'r achos sy'n dilyn yn nodweddiadol o'r gwaith y mae'r tîm gwaith ieuenctid datgysylltiedig yn ymwneud ag ef. Mae enw'r person ifanc wedi cael ei newid. Mae'r tîm wedi cefnogi Ollie dros y tair blynedd ddiwethaf. I ddechrau, cafodd ei gyfeirio at y tîm gan ei fod yn ddigartref ac nid oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Helpodd gweithwyr ieuenctid Ollie i sicrhau tenantiaeth barhaol a thalu ei filiau ei hun. Buont yn eirioli drosto trwy wrandawiad llys. Roedd gan Ollie hanes o hunan-niweidio a bygwth hunanladdiad, ac roedd gweithwyr ieuenctid yn ei gynorthwyo â'i gyflyrau niwrowahanol ac iechyd meddwl ochr yn ochr â'r tîm iechyd meddwl cymunedol. Rhoesant gymorth iddo allu manteisio ar gymorth â chamddefnyddio sylweddau gan asiantaeth wirfoddol. Rhoesant gymorth iddo ar ei daith i drawsnewid o fod yn fenyw i wryw. Roedd y perthnasoedd ymddiriedus y llwyddodd gweithwyr ieuenctid i'w meithrin gydag Ollie, a'r cymorth sensitif o ansawdd uchel a ddarparwyd gan y gweithwyr ieuenctid, yn hanfodol iddo ymdopi â'r heriau cymhleth yr oedd yn eu hwynebu, gan ymgysylltu â gwasanaethau cymorth eraill a symud o ffordd ddryslyd o fyw i ffordd fwy sefydlog o fyw.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu cymorth cryf i gyfarfodydd panel amlasiantaethol yn canolbwyntio ar bobl ifanc fregus a'u teuluoedd. Ar ôl cyfarfodydd, mae gweithwyr ieuenctid yn aml yn dechrau gwaith gyda phobl ifanc ac yn rhoi cymorth gwerthfawr iddynt tra byddant yn aros am gymorth neu ymyrraeth gan wasanaeth statudol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn hyrwyddo llais pobl ifanc yn dda, yn enwedig trwy grwpiau bach. Maent yn cynorthwyo pobl ifanc i ddod o hyd i'w llais, datblygu hyder i fynegi eu hunain a chymryd rhan yn adeiladol mewn trafodaethau grŵp. Yn y rhan fwyaf o drafodaethau grŵp, mae gweithwyr ieuenctid yn rheoli cyfraniad pobl ifanc yn dda, i sicrhau cyfranogiad teg ac ystyrlon. Mae gweithwyr ieuenctid yn gofyn am farn pobl ifanc wrth gynllunio gweithgareddau ar lefel unigol neu grŵp lleol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i'r farn honno. Mae cyfleoedd i bobl ifanc weithio gyda'i gilydd i ddylanwadu ar wasanaethau, polisïau a chynlluniau strategol ar lefel sirol yn llawer mwy cyfyngedig.

Mae gan y gwasanaeth ieuenctid ffocws addas ar hyrwyddo cydraddoldeb, yn enwedig o ran cynorthwyo pobl ifanc LHDTC+. Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn gynhwysol,

gan sicrhau bod pobl ifanc ag ADY neu anableddau, er enghraifft, yn gallu elwa ar weithgareddau, a chymryd rhan ynddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu Clybiau Ffermwyr Ifanc i ddarparu gweithgareddau gwaith ieuenctid trwy glybiau lleol mewn llawer o gymunedau gwledig yn Sir Frycheiniog, Sir Drefaldwyn a Sir Faesyfed. Mae'r clybiau'n darparu ystod eang o weithgareddau gwerthfawr i dros 1,000 o bobl ifanc sy'n datblygu eu medrau mewn meysydd fel y celfyddydau, amaethyddiaeth a siarad cyhoeddus ac yn cefnogi eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu'r Urdd i gefnogi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg trwy amrywiaeth o weithgareddau gwaith ieuenctid. Er bod bwriad da i'r gwaith hwn, mae'r cyfleoedd lleol a ariennir gan y gwasanaeth ieuenctid yn gymharol gyfyngedig, ac nid yw gwaith yr Urdd wedi'i gysylltu'n ddigon da â gwaith Cymraeg arall yn y gwasanaeth ieuenctid neu mewn ysgolion i sicrhau bod pob un o'r darparwyr yn rhan o ymagwedd strategol at hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

## Arwain a gwella

Mae gan uwch arweinwyr y cyngor, rheolwyr gwasanaeth, ysgolion a sefydliadau partner, barch mawr at y gwasanaeth ieuenctid, ac ymrwymiad cryf iddo. Mae gan yr awdurdod lleol genhadaeth gwaith ieuenctid clir, sef: 'Cefnogi pobl ifanc i greu dyfodol gwell iddyn nhw eu hunain a'u cymunedau'. Mae gan y gwasanaeth ieuenctid ddyheadau uchel i bobl ifanc ddatblygu trwy weithgareddau wedi'u harwain gan bobl ifanc. Mae'r cyngor yn nodi'n fras gyfraniad y gwasanaeth ieuenctid mewn addysg lefel uwch a strategaethau'r cyngor ond nid yw'n adlewyrchu rôl ganolog y gwasanaeth mewn cefnogi pobl ifanc 11-25 oed.

Mae adrannau unigol y cyngor, fel gwasanaethau plant ac oedolion, a sefydliadau partner yn cydnabod gwerth y gwaith ieuenctid a cheir gwaith partneriaeth eithriadol, ymroddgar a chynaledig rhwng yr asiantaethau hyn sydd â chyfrifoldeb am wahanol agweddau ar fywydau pobl ifanc.

Yn gyffredinol, mae aelodau etholedig yn meddu ar ddealltwriaeth dda o waith ieuenctid ac maent yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau i bobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor craffu perthnasol yn rhoi digon o sylw i waith y gwasanaeth ieuenctid, ei lwyddiant a'r heriau y mae'n eu hwynebu.

Caiff y gwasanaeth ieuenctid ei arwain yn effeithiol gan y Rheolwr Cynhwysiant ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Integredig, fel y dangoswyd yn ddiweddar wrth gyfuno darpariaeth gwasanaeth ieuenctid yn un strwythur gwasanaeth cyffredinol.

Caiff timau o fewn y gwasanaeth ieuenctid eu rheoli'n dda ac mae staff yn cael cymorth da. Mae'r drefn o ran goruchwylio staff yn drylwyr ac yn cynnwys goruchwyliaeth glinigol ar gyfer gweithwyr ieuenctid sy'n delio â phobl ifanc a'u teuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth ac sy'n aml yn ofidus. Mae rheolwyr yn nodi anghenion hyfforddi o sesiynau goruchwylio ar gyfer unigolion ac ar gyfer grwpiau neu ar draws y gwasanaeth, lle bo'n briodol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn meddu ar gymwysterau da, ac maent yn angerddol ac yn ymroi gwaith maent yn ei wneud gyda phobl ifanc. Mae gweithwyr ieuenctid yn cefnogi ei gilydd ac yn rhannu syniadau, profiadau ac adnoddau mewn cyfarfodydd tîm rheolaidd. Mae staff yn cysylltu â'i gilydd a'u rheolwyr yn gyson, gan ddangos ethos tîm cryf.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cadw cofnodion da o ymyriadau ar gyfer gwaith targedig gan ddefnyddio platfform electronig. Mae'r cofnodion hyn yn galluogi staff perthnasol i gael gwybodaeth gyfoes am bobl ifanc a chynhyrchu adroddiadau sy'n rhoi trosolwg clir o sefyllfa person ifanc fel bod penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud ar sut orau i'w cynorthwyo neu os dylent eu cyfeirio at asiantaeth gymorth. Caiff cymorth unigol mewn ysgolion ei gofnodi ar systemau'r ysgolion eu hunain, a gall gweithwyr ieuenctid fanteisio ar hyn, a chyfrannu ato, pan fyddant mewn ysgolion. Mae'r tîm mynediad agored yn cofnodi gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau papur sy'n briodol i brosiectau amrywiol o fewn y tîm. Er bod data'n  cael ei gofnodi ar gyfer agweddau ar y gwasanaeth ieuenctid mewn amrywiaeth o ffyrdd priodol, nid oes dull cyffredinol i goladu gwybodaeth am effaith y gwasanaeth i hwyluso monitro ansawdd strategol neu gefnogi gwelliant ansawdd parhaus.

Megis dechrau datblygu y mae'r system rheoli ansawdd gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid, er bod amrywiaeth o weithgareddau defnyddiol sy'n helpu rheolwyr i ddeall ansawdd darpariaeth gwaith ieuenctid. Nid yw rheoli ansawdd cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu wedi'i datblygu'n ddigonol. Nid yw cynlluniau yn y gwasanaeth ieuenctid bob amser yn nodi'n glir y blaenoriaethau gyda chamau penodol cysylltiedig nac yn cynnwys targedau yn seiliedig ar ddangosyddion llwyddiant mesuradwy.

Ceir elfennau o rannu gwybodaeth yn eithriadol o dda ac yn soffistigedig rhwng adrannau ac asiantaethau sy'n galluogi cymorth sensitif a thargedig ar gyfer pobl ifanc ag anghenion

cymhleth iawn, a'u teuluoedd. Mae'r ymagwedd hon at rannu gwybodaeth yn ddwy ffordd ac yn aml yn golygu y gall y gweithiwr ieuenctid fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc mewn modd amserol, neu gellir trefnu cymorth arall yn gyflym. Mae hyn yn aml yn golygu nad oes angen eu cyfeirio at wasanaethau eraill.

Er bod 'Dechrau Da i blant iau' yn cael ei hyrwyddo gan y cyngor fel ffordd o gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau am wasanaethau cyffredinol y cyngor, dim ond yn ddiweddar y mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi cymryd rhan yn y gwaith hwn. Caiff holl ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid ei harwain gan ddysgwyr, ac mae anghenion pobl ifanc yn ganolog i weithgareddau ac yn arbennig i ymyriadau targedig. Fodd bynnag, nid oes strategaeth gorfforaethol gyffredinol i bobl ifanc gael llais mewn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw neu o ran ffurfio gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer.

Caiff y gwasanaeth ieuenctid ei ariannu gan amrywiaeth o ffrydiau cyllido, gan gynnwys cyllid craidd gan yr awdurdod lleol ac o grantiau. Mae grantiau'n cyfrif am ryw ddwy ran o dair o'r gyllideb flynyddol ac yn galluogi'r gwasanaeth i gynnig ystod estynedig o gymorth ar gyfer pobl ifanc. Caiff adnoddau o fewn y gwasanaeth eu rheoli'n dda ac mae cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn ymestyn ystod y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch cyllid grant a chyfyngiadau cyllido o fewn yr awdurdod lleol yn risg i gynnal y capasiti presennol ac yn cyfyngu ar allu arweinwyr i gynllunio ar gyfer datblygu'r gwasanaeth.

Ceir diwylliant diogelu cryf ar draws y gwasanaeth. Mae arweinwyr gwasanaeth a gweithwyr ieuenctid amser llawn a rhan-amser yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae polisïau a gweithdrefnau corfforaethol clir ar waith, sy'n adlewyrchu cylch gwaith oedran y gwasanaeth ieuenctid, sef 11-25. Ceir perthnasoedd clir ac effeithiol rhwng gweithwyr ieuenctid, swyddogion diogelu addysg a swyddogion gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu i bobl ifanc a'u teuluoedd mewn modd amserol.

Mae gan bartneriaid hyder yn yr arferion a'r diwylliant diogelu ar draws y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau statudol fel gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid, prawf, tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i gefnogi atgyfeiriadau amserol a phriodol, cydweithio effeithiol a gofyn am gyngor i gefnogi pobl ifanc. Mae partneriaid yn nodi rôl sylweddol y gwasanaeth ieuenctid yn yr hyn y maent yn ei ddisgrifio fel 'herio'r naratif' am berson ifanc, trwy helpu pobl sy'n gwneud penderfyniadau mewn gwasanaethau statudol i ddeall safbwynt a chyd-destun person ifanc wrth ddelio â materion diogelu cyd-destunol. Er enghraifft, pan fydd

person ifanc yn cymryd rhan mewn achosion llys, mae gweithiwr ieuenctid yn rhannu ei safbwynt a gwybodaeth gefndir bwysig sy'n helpu llywio penderfyniadau'r llys.

Mae pob un o'r staff yn y gwasanaeth ieuenctid yn cael hyfforddiant amserol a phriodol mewn diogelu, gan gynnwys hyfforddiant, i ddeall materion yn gysylltiedig â radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae rheolwyr yn monitro'r hyfforddiant hwn yn ofalus i sicrhau bod pob un o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl. Gall staff fanteisio ar gynnig hyfforddiant ehangach, ar lefel gwasanaeth a lefel unigol, fel ei gilydd, a nodwyd trwy oruchwylio, cyfarfodydd tîm a thueddiadau gan bobl ifanc a phartneriaid. Mae hyn wedi galluogi datblygu gweithlu hynod fedrus, sy'n gallu sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion pobl ifanc ochr yn ochr â'i ddyletswyddau diogelu a gallu gwneud hyn mewn ffordd sy'n cynnal perthynas ymddiriedus â phobl ifanc.

Dywedodd pob un o'r bobl ifanc y cyfarfuom â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo'n ddiogel ym mhob agwedd ar y gwasanaeth. Pan gaiff pobl ifanc eu hatgyfeirio at wasanaethau cymorth eraill, maent wedi teimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses ac yn ymddiried yn eu gweithiwr ieuenctid. Mae pobl ifanc yn datgan bod gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid wedi eu helpu i ddysgu sut i fyw bywydau mwy diogel, mwy sefydlog a boddhaus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi'r canlyniadau o'r holiaduron i bobl ifanc, ac yn ystyried barn pobl ifanc, staff, a phartneriaid, lle bo'n briodol, trwy'r ymatebion i'r holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r prif swyddog ieuenctid / y prif weithredwr, y bwrdd ymddiriedolwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol, staff gwaith ieuenctid unigol, a gwirfoddolwyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â phobl ifanc i drafod eu darpariaeth, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau gwaith ieuenctid, gan gynnwys clybiau ieuenctid, gwaith datgysylltiedig ar y stryd a gweithgareddau yn yr ysgol ar draws y ddarpariaeth, lle bo'n briodol
- yn arsylwi pobl ifanc, ac yn siarad â nhw yn ystod sesiynau darpariaeth
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn craffu ar ystod eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a deilliannau dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu pobl ifanc, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2025